

# Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell



Heol Cilgant, Caerfilli CF83 1WH

Tel : 02920 864790 Email : [yycpa@caerphilly.gov.uk](mailto:yycpa@caerphilly.gov.uk) Headteacher : Mrs H. Nuttall

17.5.2020

Annwyl Rieni / Warchodwyr,

## **Croeso cynnes i Ysgol Y Castell.**

Mae'n bleser gennyf eich croesawu chi, eich plentyn a'ch teulu estynedig i Ysgol Y Castell. Mae cychwyn ysgol yn amser cyffrous i bob teulu ac ar ddechrau ein partneriaeth, byddwn fel arfer yn cwrdd yn ystod tymor yr haf i gyfarch eich plentyn, darparu sesiynau anwytho iddynt ac ateb eich cwestiynau niferus. Fodd bynnag, mae eleni ychydig yn wahanol. Ond er gwaethaf ein heriau, rydym yn dal i geisio sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r ysgol yn ystod yr amseroedd digynsail hyn gan sicrhau ein argaeledd i chi i ateb eich holl gwestiynau, boed yn fawr neu'n fach.

Byddem fel arfer yn cynnal cyfarfod ar gyfer ein darpar-rieni sy'n dechrau yn ein Meithrin ym mis Medi. Ond yn anffodus, oherwydd y sefyllfa bresennol gyda COVID 19, ni allwn gynnal y cyfarfod hwn ar hyn o bryd. Os a phan fydd yr ysgol yn ailagor, byddwn yn ceisio hwyluso cyfarfod gan ddilyn deddfau ymbellhau cymdeithasol.

Mae'r cyflwyniad PowerPoint y byddai Mrs Evans (Arweinydd Y Cyfnod Sylfaen) yn darparu fel arfer yn ystod y cyfarfod wedi'i lanlwytho ar wefan yr ysgol lle gallwch gael mynediad ato ([www.ysgolycastell.com](http://www.ysgolycastell.com) Tab: Meithrin 2020). Mae hefyd copi o lawlyfr Y Cyfnod Sylfaen yna. Y gobaith yw y bydd y cyflwyniad a'r llawlyfr yn rhoi gwybodaeth gychwynol i chi. Hefyd, hoffwn eich annog i ddod yn gyfarwydd â'n gwefan lle mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol i chi.

Yr wybodaeth allweddol rydym ni angen gennych ar hyn o'r bryd yw a fydd eich plentyn yn dymuno **Meithrin bore (9:00 - 11.45) neu Meithrin prynhawn (12:45 - 15.30) neu os gallwch fod yn hyblyg.**

Mae llefydd cyfyngedig ar gyfer gwasanaeth 'Wraparound' (sydd ar gael drwy 'Menter Iaith Caerffili') sy'n galluogi plant i aros am y diwrnod llawn. Bydd rhieni sydd eisiau Wraparound am 5 diwrnod yr wythnos yn derbyn blaenoriaeth ar gyfer hyn. **Os hoffech i'ch plentyn gael ei ystyried ar gyfer hyn, neu am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: [meithrinycastell@mentercaerffili.cymru](mailto:meithrinycastell@mentercaerffili.cymru)** Ffon: 07932565365.

Pfîs llenwch y ffurflen amgaeedig gan nodi'r dewis sydd orau gennych a'i dychwelyd

drwy e-bost i'r ysgol cyn gynted â phosibl, ond erbyn dydd Llun 25<sup>ain</sup> Mai fan bellaf (yycpa@caerphilly.gov.uk). Er y gwneir pob ymdrech i ddarparu ar gyfer eich hoff ddewis, efallai na fydd eich hoff ddewis yn bosibl, oherwydd anghenion plant neu'r rhifau.

Hyd nes y bydd rhyw fath o normalrwydd yn dychwelyd, a allwch sicrhau bod gan yr ysgol **gyfeiriad e-bost cyswllt ar gyfer eich plentyn** a'ch bod yn parhau i wirio'ch e-byst am wybodaeth am eich plentyn yn dechrau yn yr ysgol.

Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi i gyd yn fuan.

Cofion cynnes,

*HC Nuttall*

Pennaeth  
Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell

Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân

